

Llywodraeth Cymru
Welsh Government


# Y Gell Cyngor Technegol

# Crynodeb o'r cyngor

15 Ionawr 2021







OGL (h) Hawlfraint y Goron 2020

# Y Gell Cyngor Technegol: Crynodeb

15 Ionawr 2021

## Crynodeb o'r Prif Bwyntiau

- Mae amcangyfrif diweddaraf SAGE o'r rhif atgynhyrchu ($R_t$) ar gyfer Cymru (ar 13 Ionawr) rhwng 0.8 ac 1.1. Dyma'r amcangyfrif swyddogol o rif $R_t$ i Gymru yn seiliedig ar y data sydd ar gael hyd at 11 Ionawr. Mae SAGE yn amcangyfrif bod yr epidemig yn lleihau/tyfu rhwng -4% ac +1% y dydd.

- Yn seiliedig ar nifer yr achosion yn unig, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn amcangyfrif bod $R_t$ rhwng 0.88 a 0.91 (ar 8 Ionawr) a bod yr amser haneru yn 28.5 diwrnod (ar 12 Ionawr).

- Mae'r amcangyfrifon hyn yn galonogol am eu bod yr un fath, neu wedi lleihau, ers yr wythnos diwethaf. Fodd bynnag, dylid eu trin yn ofalus gan y gallai newidiadau mewn patrymau profi fod wedi effeithio arnynt dros gyfnod y Nadolig.

- Ar 12 Ionawr, mae positifedd profion (treigl 7 diwrnod) yn 17.7%, sydd wedi gostwng ers wythnos diwethaf, ond mae'n parhau i fod yn uchel ac yn uwch na'r trothwy cyfnod atal byr coch ym mhob rhan o Gymru. Mae positifedd yn parhau i fod ar ei uchaf yn ardaloedd Wrecsam (29.4%) a Sir y Fflint (20.7%) yn y Gogledd, a Phen-y-bont ar Ogwr (21.8%) yn y De. Mae positifedd yn is yng Ngwynedd (12.7%) yn y Gogledd ond mae'n dangos arwyddion ei fod yn cynyddu.

- Nid yw data arolwg heintiau'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gael ar gyfer yr wythnos ddiweddaraf yn sgil oedi mewn profion labordy, gweler yma am ragor o wybodaeth.

- Ar 13 Ionawr, mae cyfran y samplau a gadarnhawyd sydd wedi'u profi â'r Methiant ar y Targed Genyn-S (sy'n awgrymu amrywiolyn sy'n peri pryder yn y DU VOC202012/01) wedi cynyddu ym mhob rhanbarth o Gymru, sef tua 50% neu'n uwch yn y rhan fwyaf o Fyrddau Iechyd. Cofnodwyd un achos o VOC2020/12/02 o Gymru (yr amrywiolyn sy'n gysylltiedig â De Affrica).

- Ar 13 Ionawr, roedd cyfran y galwadau i GIG 111 a Galw Iechyd Cymru yn ymwneud â symptomau COVID-19 posibl yn parhau'n sefydlog o gymharu â'r wythnos flaenorol ac mae nifer y galwadau ambiwlans wedi gostwng. Mae ymgyngoriadau meddygon teulu ar gyfer unrhyw Haint Anadlol Acíwt (ARI) wedi gostwng tra bod ymgyngoriadau meddygon teulu ar gyfer amheuaeth o COVID wedi cynyddu o gymharu â'r wythnos flaenorol.

- Ar 15 Ionawr, mae nifer y bobl yn yr ysbyty sydd wedi cael cadarnhad bod COVID-19 arnynt wedi aros ar yr un lefel dros yr wythnosau diwethaf, ond mae'n parhau'n uchel ac yn uwch na'r lefelau uchaf a welwyd ym mis Ebrill. Ar y cyfan, mae nifer y gwelyau a ddefnyddir mewn unedau gofal dwys (cleifion COVID-19 a chleifion nad oes ganddynt COVID-19) hefyd yn uchel ac yn agos i'r lefelau uchaf a welwyd ym mis Ebrill. Yng Nghymru, mae fel arfer tua 152 o welyau gofal critigol (cyfwerth â Lefel 3 uned gofal dwys). Fodd bynnag, mae ysbytai yn creu capasiti ychwanegol ar gyfer gwelyau gofal critigol oherwydd y galw cynyddol amdanynt. Felly, mae unedau gofal critigol yng Nghymru naill ai wedi'u meddiannu 100% o ran eu capasiti gofal critigol arferol, neu yr aethpwyd y tu hwnt i'r ffigur hwn sy'n golygu na ellir eu staffio yn unol â'r gymhareb nyrsio 1:1 sy'n ofynnol ar gyfer cleifion critigol, hyd yn oed gyda staff gofal anghritigol yn helpu i ofalu am gleifion.

- Mae marwolaethau a gofnodwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru (ar 15 Ionawr) yn dangos tuedd sy'n gostwng, ond maent dal yn uwch na'r lefelau uchaf a welwyd ym mis Ebrill. Mae data ar farwolaethau gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (wythnos yn gorffen 8 Ionawr), sy'n fwy cyflawn, ond yn destun oedi, yn parhau i ddangos tuedd ar i fyny ers ein hadroddiad diwethaf. Dylid trin data'n ofalus oherwydd cyfnod gwyliau'r Nadolig.

- Mae dadansoddiad pellach o ddata'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyfer Cymru yn dangos mai COVID-19 oedd y prif achos marwolaeth ym mis Rhagfyr am yr ail fis yn olynol. Roedd y gyfradd marwolaethau mewn ardaloedd o amddifadedd bron ddwywaith yr hyn a welwyd mewn ardaloedd lleiaf amddifad, ac roedd y gyfradd marwolaethau oherwydd COVID-19 ar gyfer mis Rhagfyr yn uwch yng Nghymru o gymharu â Lloegr.

- Yn ystod yr wythnos a ddaeth i ben ar 10 Ionawr, rhoddwyd cyfanswm o 88,163 dos o frechlyn COVID-19 (79 ohonynt yn ail ddos) yng Nghymru. Bydd nifer wirioneddol y dosau yn uwch oherwydd y cofnodir data'n barhaus.

- Cyhoeddir papurau SAGE a ystyriwyd gan y Gell Cyngor Technegol yma, gan gynnwys papur ar leihau nifer yr achosion a drosglwyddir o fewn aelwydydd a rhyngddynt yn sgil yr amrywiolyn newydd, sy'n fwy trosglwyddadwy, a drafodir yn fanylach yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.

- Mae papur ychwanegol sydd o ddiddordeb yn cynnwys adroddiad gan arolwg cysylltiadau cymdeithasol CoMix y DU (a nodir isod).

## Cyfradd twf a’r rhif atgynhyrchu

- Mae'n bwysig nodi na all yr amcangyfrifon canlynol adlewyrchu'n llawn eto'r newidiadau diweddaraf mewn trosglwyddiad o'r ddwy i dair wythnos ddiwethaf. Y rheswm dros hyn yw bod oedi rhwng yr haint cychwynnol, symptomau'n datblygu a'r angen am ofal ysbyty ac amser y farwolaeth.

- Y gyfradd twf ddyddiol gyfredol a amcangyfrifir gan SAGE (ar 14 Ionawr) yw rhwng -0.04 a 0.01 (cyfwng hyder o 90%) yng Nghymru, sy'n dangos y gallai heintiau fod yn lleihau/tyfu rhwng -4% a +1% y dydd.

- Rhagwelir y bydd yr amcangyfrif diweddaraf o’r rhif atgynhyrchu ($R_t$) ar gyfer Cymru gan SAGE (ar 14 Ionawr) rhwng 0.8 ac 1.1 (cyfwng hyder o 90%).

- Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru hefyd yn amcangyfrif $R_t$ Cymru gan ddefnyddio data ar nifer yr achosion positif. Ar 12 Ionawr, amcangyfrifir bod $R_t$ yng Nghymru rhwng 0.80 a 0.91 (cyfwng hyder o 95%).

- Dylid bod yn ofalus o hyd wrth ddehongli amcangyfrifon $R_t$ a chyfraddau twf ar gyfer y DU, oherwydd yr oedi anorfod sydd ynghlwm wrthynt, argaeledd profion ac oherwydd bod y ffigurau hyn yn cuddio amrywiad yn nifer yr heintiadau a’r modd y mae’r cyfraddau trosglwyddo yn newid yn rhai rhannau o'r wlad. Dylid bod yn ofalus wrth ddehongli'r amcangyfrifon hyn gan y gall newidiadau mewn patrymau profi dros y gwyliau effeithio arnynt.

- Dangosir yr amcangyfrifon o $R_t$ fel ystod heb amcangyfrif canolog. Mae cyfradd twf sy'n is ond sy'n dal yn bositif, neu rif $R_t$ uwch nag 1, yn dangos bod yr epidemig yn tyfu fwyfwy.

## Amser haneru


- Ar 12 Ionawr, amcangyfrifodd Iechyd Cyhoeddus Cymru fod yr amser haneru (yr amser y mae'n ei gymryd i nifer yr achosion haneru) yn 28.5 diwrnod (cyfwng hyder o 95% rhwng 11.2 a -53.1) gan ddefnyddio data rhwng 26/12/2020 a 08/01/2021.
- Mae’r amser haneru (ac $R_t$ a chyfraddau twf), yn rhoi syniad o gyfradd y newid ac felly dylid ei drin yn ofalus am y rhesymau a amlinellir uchod.

## Diweddariad rhyngwladol

- Mae Gweriniaeth Iwerddon wedi gweld gostyngiad sydyn iawn yn nifer yr achosion o COVID-19 yn ystod yr wythnos ddiwethaf. O uchafbwynt o 8227 o

achosion newydd ar 8 Ionawr, mae eu cyfradd achosion dyddiol wedi mwy na haneru i tua 2946 a gofnodwyd ar 17 Ionawr. Roedd hyn yn dilyn cynnydd cyflym iawn o 1753 a gofnodwyd ar 1 Ionawr sy'n debygol iawn o ganlyniad i gyfnod y Nadolig.


- Nid yw'r patrwm hwn wedi'i ailadrodd mor amlwg yng ngwledydd eraill Ewrop ond mae arwyddion cryf bod cyfnod y Nadolig wedi cynyddu nifer dyddiol yr achosion mewn sawl gwlad arall ond mewn modd mwy graddol, h.y. dechreuodd y niferoedd godi cyn y Nadolig ac mae'n bosibl eu bod o ganlyniad i baratoadau cyffredinol ar gyfer y Nadolig.
- Mae nifer o amrywiolynnau newydd wedi ymddangos ledled y byd, yn enwedig yn Ne Affrica a dau amrywiolyn ym Mrasil. Mae gan yr amrywiolynnau hyn fwtaniadau tebyg sy'n eu gwneud yn fwy heintus ac yn fwy trosglwyddadwy.
- Yn Ne Affrica a'r gwledydd cyfagos a'r gwledydd o amgylch Brasil, mae niferoedd cynyddol o heintiau newydd sy'n peri pryder o ystyried ei bod yn haf yn hemisffer y de ar hyn o bryd. Mae'r cynnydd hwn yn groes i'r hyn y gellid ei ddisgwyl os oes natur dymhorol iawn i'r pandemig. Credir bod y rhan fwyaf o'r cynnydd mewn nifer yr heintiau oherwydd yr amrywiolynnau newydd er nad yw gwledydd De America yn dilyniannodi genynnau bron cymaint o achosion newydd â'r DU neu Dde Affrica. O ganlyniad, mae'r DU wedi penderfynu tynnu pob gwlad oddi ar y rhestr 'coridor teithio' o ddydd Llun 18 Ionawr 2021 dros dro o leiaf.
- Mae'r map isod yn dangos cyfradd gyfartalog yr achosion a adroddwyd am bob 100,000 o bobl yn yr UE. Nid yw'r DU wedi'i chynnwys oherwydd Brexit.



- Mae data ynglŷn â'r darlun ar draws Ewrop, gan gynnwys cafeatau ynghylch oedi o ran data ac amrywiad mewn polisïau profi, ar gael yma.

## Nifer yr achosion

- Mae'r ffigur isod yn dangos y nifer yr achosion o COVID-19 a gadarnhawyd bob dydd (swm treigl o 7 diwrnod, fesul 100,000 o'r boblogaeth). Gwelir gostyngiad cyffredinol yn nifer yr achosion yn dilyn brig yng nghanol mis Rhagfyr.





**Ffynhonnell:** Data gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ar 14 Ionawr

## Proffil oedran

- Mae'r Ffigur isod yn dangos nifer yr episodau COVID-19 a gadarnhawyd fesul 100,000 o'r boblogaeth, yn ôl wythnos casglu sampl a grŵp oedran.

- Yn ôl Iechyd Cyhoeddus Cymru, ar 13 Ionawr, gostyngodd nifer yr achosion yn y rhan fwyaf o grwpiau oedran yn dilyn cynnydd yn yr wythnos flaenorol, gyda nifer yr achosion ar eu huchaf ymhlith y rhai 90+ oed




**Ffynhonnell:** Dangosfwrdd Llywodraeth Cymru, data gan Iechyd Cyhoeddus Cymru fel ag yr oeddent ar 13 Ionawr.

## Brechu yng Nghymru

- Erbyn yr wythnos a ddaeth i ben ar 10 Ionawr 2021, roedd cyfanswm o 88,163 dos o frechlyn COVID-19 (79 ohonynt yn ail ddos) wedi'u rhoi yng Nghymru.
- Mae'r nifer hwn yn cynnwys 1,833 o bobl a gafodd eu brechu yng Nghymru, ond a oedd yn preswylio y tu allan i Gymru.
- Bydd nifer wirioneddol y dosau yn uwch oherwydd bod data'n cael eu cofnodi'n barhaus.
- Mae data brechiadau ar gael oddi wrth tableau Iechyd Cyhoeddus Cymru.

## Marwolaethau

- Mae'r Ffigur isod yn dangos y swm treigl 7 diwrnod o farwolaethau COVID-19 a gofnodwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ar 15 Ionawr 2021, sy'n dangos tuedd ostyngol yn ddiweddar.





**Ffynhonnell:** Dangosfwrdd Llywodraeth Cymru, data gan Iechyd Cyhoeddus Cymru fel ag yr oeddent ar 15 Ionawr.

- Mae'n bwysig nodi bod y data yn cynnwys adroddiadau am farwolaeth cleifion mewn ysbytai neu gartrefi gofal yng Nghymru lle mae COVID-19 wedi'i gadarnhau gyda phrawf labordy positif a bod y clinigwr yn amau bod COVID-19 yn ffactor a achosodd farwolaeth. Nid yw'n cynnwys cleifion a allai fod wedi marw o COVID-19 ond na chadarnhawyd hynny drwy brofion labordy, y rhai a fu farw mewn lleoliadau eraill, neu drigolion Cymru a fu farw y tu allan i Gymru. Bydd gwir nifer y marwolaethau yn uwch.

- Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn adrodd ar farwolaethau a amheuir ac a gadarnhawyd sydd o ganlyniad i COVID-19 gan ddefnyddio data sydd ar gael ar ôl cwblhau'r broses cofrestru marwolaethau ac er ei fod yn destun oedi, mae'n fwy cyflawn.

- Mae'r Ffigur isod yn dangos data'r Swyddfa Ystadegau Gwladol o nifer y marwolaethau sy'n gysylltiedig â COVID-19 a gofrestrwyd fesul wythnos yng Nghymru a nifer yr holl farwolaethau achos a gofrestrwyd fesul wythnos rhwng 28 Rhagfyr 2019 ac 8 Ionawr 2021.




Ffynhonnell data: [Y Swyddfa Ystadegau Gwladol]

- Yng Nghymru, cynyddodd nifer y marwolaethau a oedd yn gysylltiedig â COVID-19 o 310 (Wythnos 53) i 454 (Wythnos 1) tra bod cyfanswm nifer y marwolaethau yn Wythnos 1 442 yn uwch na'r cyfartaledd pum mlynedd.

- Roedd y pythefnos blaenorol yn cynnwys gwyliau banc y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd a fyddai'n debygol o fod wedi effeithio ar nifer y marwolaethau a gofrestrwyd. Felly, dylid bod yn ofalus wrth ddehongli'r tueddiadau ar gyfer yr wythnosau diwethaf.

- Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol hefyd wedi cyhoeddi dadansoddiad marwolaethau misol ychwanegol ar gyfer marwolaethau a gofrestrwyd ym mis Rhagfyr 2020. Mae'r dadansoddiad o farwolaethau COVID-19 yn y bwletin yn canolbwyntio ar farwolaethau "oherwydd" COVID-19 (marwolaethau lle roedd COVID-19 yn achos sylfaenol marwolaeth, neu roedd amheuaeth ei fod yn COVID-19). Nid yw hyn yr un fath â phob marwolaeth sy'n "gysylltiedig â" COVID-19 – a ddangosir yn yr adroddiadau wythnosol – gan fod y rhain yn cynnwys marwolaethau lle roedd COVID-19 wedi'i grybwyll unrhyw le ar y dystysgrif farwolaeth, boed hynny fel achos sylfaenol ai peidio. Fodd bynnag, yn y rhan fwyaf o achosion (tua 9 allan o 10) lle roedd COVID-19 yn cael ei grybwyll ar y dystysgrif farwolaeth, canfuwyd ei fod yn achos sylfaenol marwolaeth.


- Mae'r prif ganfyddiadau ar gyfer Cymru isod a chyhoeddir manylion pellach yma:

- Yng Nghymru, cofrestrwyd 3,941 o farwolaethau ym mis Rhagfyr 2020. Roedd hyn yn 851 yn fwy o farwolaethau nag ym mis Rhagfyr 2019 a 1,075 yn fwy o farwolaethau na'r cyfartaledd pum mlynedd ar gyfer mis Rhagfyr.


- O'r 3,941 o farwolaethau a gofrestrwyd ym mis Rhagfyr 2020 yng Nghymru, roedd 1,233 o farwolaethau (31.3%) yn gysylltiedig â COVID-19 (h.y. roedd yn cael ei grybwyll unrhyw le ar y dystysgrif farwolaeth, boed yn achos sylfaenol ai peidio). Roedd hyn yn cynnwys 1,081 o farwolaethau (27.4%) "oherwydd" COVID (h.y. lle roedd yn achos sylfaenol marwolaeth).

- Ym mis Rhagfyr 2020 yng Nghymru cynyddodd y gyfradd farwolaethau wedi'i safoni yn ôl oedran oherwydd COVID-19 am y trydydd mis yn olynol, er ei bod yn is nag ym mis Ebrill. Roedd y gyfradd farwolaethau oherwydd COVID-19 ar gyfer mis Rhagfyr yn uwch yng Nghymru nag yn Lloegr.

**Age-standardised mortality rates for deaths due to COVID-19, per 100,000 people, England and Wales, deaths registered in March to December 2020**




- COVID-19 oedd prif achos marwolaeth ym mis Rhagfyr 2020 am yr ail fis yn olynol. Yn seiliedig ar ddata dros dro ar gyfer mis Ionawr i fis Rhagfyr 2020, COVID-19 oedd prif achos marwolaeth (ac yna dementia a chlefyd Alzheimer ac yna clefydau isgemia'r galon).




- Roedd y gyfradd dros dro ar gyfer marwolaethau wedi'i safoni yn ôl oedran mewn perthynas â marwolaethau a gofrestrwyd yng Nghymru yn 2020 yn sylweddol uwch na phob blwyddyn rhwng 2010 a 2019.

- Yng Nghymru, roedd y gyfradd farwolaethau wedi'i safoni yn ôl oedran oherwydd COVID-19 o fis Mawrth i fis Rhagfyr 2020 yn yr ardaloedd mwyaf amddifad tua dwywaith yn fwy na'r gyfradd farwolaethau yn yr ardaloedd lleiaf amddifad.


- O fewn Cymru, roedd y gyfradd farwolaethau wedi'i safoni yn ôl oedran oherwydd COVID-19 o fis Mawrth i fis Tachwedd 2020 uchaf yng Nghwm Taf Morgannwg, ac isaf yn Hywel Dda. (Oherwydd mater prosesu, nid yw'r Swyddfa Ystadegau Gwladol wedi ychwanegu data mis Rhagfyr eto).

## Glynu wrth y mesurau presennol a dealltwriaeth ohonynt

- Mae data newydd oddi wrth Iechyd Cyhoeddus Cymru ac astudiaeth gymdeithasol COVID. Disgwylir data newydd oddi wrth IPSOS MORI yr wythnos nesaf.
- Mae data diweddaraf IPSOS MORI ar gyfer y cyfnod 4-7 Rhagfyr ar gyfer Cymru yn dangos gostyngiadau pellach mewn rhai categorïau o'r arolwg diwethaf. Bu gostyngiadau yn nifer y bobl a oedd yn gwneud teithiau hanfodol yn unig ac yn osgoi teithio nad yw'n hanfodol o'i gymharu â phythefnos yn ôl. Dylid nodi mai'r unigolion eu hunain sy'n cofnodi a ydynt wedi glynu wrth y mesurau ai peidio, ac

y bydd dealltwriaeth unigolion o'r rheolau a'r amgylchiadau sy'n berthnasol iddynt hwy yn effeithio ar y data.

- Mae'r ffigur isod yn cynrychioli data a gasglwyd ar-lein gan IPSOS MORI fel rhan o arolwg a gynhaliwyd mewn sawl gwlad ar lwyfan Global Advisor. Mae pob un o'r tonnau wedi cynnwys oddeutu 500 o ymatebwyr yng Nghymru. Mae'r sampl yn fras yn cynrychioli'r boblogaeth oedolion 16-74 oed. Mae'r data'n cael eu pwysoli i adlewyrchu proffil oedran a rhyw poblogaeth Cymru rhwng 16 a 74 oed. Mae gan bob sampl ffin cyfeiliornad. Ar gyfer sampl o tua 500, mae hyn yn +/- 4.8 pwynt canran.




- Mae canlyniadau diweddaraf yr [Arolwg Ymgysylltu â'r Cyhoedd ynghylch Iechyd a Llesiant yn ystod y Mesurau Coronafeirws] ar gyfer y cyfnod 4 Ionawr - 10 Ionawr yn dangos bod 52% o bobl yn dweud eu bod yn deall y cyfyngiadau yng Nghymru yn 'dda iawn'. Dywedodd 39% arall eu bod yn deall y cyfyngiadau yn 'eithaf da'. Mae'r canlyniadau hyn yn uwch na'r rheini yng nghanol Rhagfyr cyn dechreuodd lefel rhybudd 4. Mae'r canlyniadau hefyd yn dangos bod 49% o bobl wedi dweud eu bod yn dilyn y cyfyngiadau coronafeirws yn 'gyfan gwbl' a bod 41% arall wedi dweud eu bod yn cydymffurfio â'r mwyafrif, sydd eto yn uwch nag yng nghanol Rhagfyr. Dywedodd 20% fod pobl y tu allan i'w cartref/aelwyd estynedig yn dod i mewn i'w tŷ, a dywedodd 15% eu bod wedi mynd i dai pobl eraill, y ddau ffigur yn is na'r ffigurau yng nghanol mis Rhagfyr.

- Mae [Astudiaeth Gymdeithasol Covid], sy'n canolbwyntio'n bennaf ar ddadansoddiad ar lefel y DU, yn dangos bod mwy o unigolion ar y cyfan yn

hunangofnodi eu bod yn cydymffurfio pan eu bod yn deall y rheolau'n well. Mae dadansoddiad newydd yr wythnos hon yn ystyried cydymffurfedd â rheolau Covid-19 (lefel y DU). Dyma rai o'r canlyniadau allweddol:

- Gofynnwyd i gyfranogwyr a oeddent wedi gofyn am brawf ar ôl datblygu symptomau Covid-19 ers ddechrau'r pandemig. Dywedodd 33% eu bod wedi gofyn am brawf bob tro y gwnaethant ddatblygu symptomau, ond dywedodd 10% eu bod wedi gofyn am brawf ar rai adegau yn unig. **Dywedodd 57% nad oeddent erioed wedi gofyn am brawf er eu bod wedi profi symptomau**. **Oedolion iau sydd wedi bod fwyaf cyson wrth ofyn am brofion pan oeddent yn profi symptomau**, gyda 42% yn gofyn am brawf bob tro, o gymharu â 37% o oedolion 30-59 oed a 18% o oedolion 60+ oed. **Dywedodd 75% o oedolion 60+ oed nad oeddent erioed wedi gofyn am brawf er gwaethaf profi symptomau ar un achlysur neu fwy**. Bu menywod hefyd yn fwy cyson wrth ofyn am brofion (gyda 39% bob amser yn gofyn amdanynt o gymharu â 27% o ddynion). Hefyd, pobl sy'n perthyn i aelwydydd incwm uwch yw'r bobl sydd wedi bod fwyaf cyson wrth ofyn am brofion (39% bob tro o gymharu â 28% mewn aelwydydd incwm is).

- Gofynnodd yr astudiaeth am ba mor hir y mae pobl wedi bod yn ynysu os oeddent naill ai wedi datblygu symptomau COVID-19 neu eu bod wedi cael gwybod eu bod wedi dod i gysylltiad â rhywun arall sydd wedi datblygu symptomau. O ran pobl a oedd wedi profi'r naill ddigwyddiad neu'r llall fwy nag unwaith, gofynnwyd iddynt roi gwybod am yr amser byrraf yr oeddent wedi ynysu. Y rheolau yw y dylai unigolion ynysu am 10 diwrnod yn y naill amgylchiad neu'r llall. **Dim ond 62% o bobl sy'n ynysu am nifer y dyddiau a argymhellir (10 neu fwy) pan ydynt yn datblygu symptomau Covid-19**. Mae 39% yn ynysu am lawer hirach (21 diwrnod neu fwy), a allai fod o ganlyniad i brofi symptomau parhaus y feirws. Fodd bynnag, nid yw 13% yn ynysu o gwbl pan ydynt yn datblygu symptomau, dim ond am 1-5 diwrnod y mae 16% yn ynysu, a dim ond am 6-9 diwrnod y mae 9% yn ynysu. **Mae oedolion 18-59 oed yn well yn hunanynysu am nifer y dyddiau a argymhellir (63% o gymharu â 61% o'r rhai 60+ oed), ac yn dangos cyfradd llawer is o beidio ag ynysu o gwbl (3% ar gyfer y rhai 18-29 oed o gymharu â 13% o'r rhai 30-59 oed a 26% o'r rhai 60+ oed).** Mae canran y bobl sy'n hunanynysu am y cyfnod a argymhellir yr un fath ar draws y rhywiau (62%) ond mae'r nifer nad ydynt yn ynysu o gwbl yn uwch ymhlith dynion (17%) na menywod (10%). Mae pobl sy'n perthyn i aelwydydd incwm uwch hefyd yn dangos lefel ychydig yn uwch o hunanynysu am y cyfnod amser a argymhellir (63% o gymharu â 61%) ac maent yn llawer llai tebygol o beidio ag ynysu o gwbl (9% o gymharu â 18%).

Figure 32a Days of self-isolation amongst younger adults (aged 18-29)







Figure 32c Days of self-isolation amongst older adults (aged 60+)




## Symudedd


- Mae'r data symudedd ar gyfer yr wythnos ddiweddaraf (yn bennaf yr ail wythnos lawn ym mis Ionawr) yn dangos patrwm tebyg i'r wythnos flaenorol. Mae'r patrymau symudedd yn unol â'r patrymau yn ystod y cyfnod atal byr – gyda lefelau mewn rhai achosion yn debyg i'r wythnos gyntaf (pan gaewyd yr ysgolion yn ystod hanner tymor). Er enghraifft mae data defnyddwyr Facebook sy'n aros gartref a data preswyl Google yn dangos lefelau tebyg i'r lefelau yn ystod yr wythnos gyntaf honno o'r cyfnod atal byr. Mae data Google ar weithleoedd yn dangos lefelau symudedd rywle rhwng wythnos gyntaf ac ail wythnos y cyfnod atal byr.




- Mae symudedd defnyddwyr Facebook yng Nghymru yn dangos bod symudiadau 30% yn is na'r llinell sylfaen ar gyfer yr wythnos hyd at 15 Ionawr. Mae hyn yn debyg i 31% yr wythnos flaenorol. Roedd canran y defnyddwyr a oedd yn aros yn eu hunfan (yn agos at adref) yn 36%, yn union yr un lefel â'r wythnos flaenorol. Y llinell sylfaen yw'r gwerth canolrifol ar gyfer yr un diwrnod o'r wythnos, yn ystod y cyfnod 4 wythnos rhwng 2 Chwefror a 29 Chwefror, 2020.
- Mae data Apple ar gyfer yr wythnos hyd at 16 Ionawr yn dangos bod ceisiadau am gyfarwyddiadau gyrru yng Nghymru yn debyg i'r wythnos flaenorol, sef 68%

o'r llinell sylfaen (o 67%). Roedd ceisiadau am gyfarwyddiadau cerdded yn uwch tra bo ceisiadau am gyfarwyddiadau trafnidiaeth gyhoeddus heb newid o'u cymharu â'r llinell sylfaen o'i gymharu â'r wythnos diwethaf. Y llinell sylfaen yw 13 Ionawr 2020.

- Mae data symudedd Google hyd at wythnos 12 Ionawr yn dangos gostyngiad mewn data preswyl (h.y. pobl yn treulio amser gartref) o'i gymharu â'r wythnos flaenorol, 16% yn uwch na'r llinell sylfaen (i lawr o 19%). Noder bod data Google ar gyfer yr wythnos flaenorol yn cynnwys Dydd Calan. Mae gweithleoedd yn dangos cynnydd (ar 40% yn is na'r llinell sylfaen, i fyny o 53%). Mae manwerthu a hamdden wedi dangos cynnydd bach ers yr wythnos diwethaf (58% yn is na'r llinell sylfaen, i fyny o 60% yr wythnos flaenorol) tra bod archfarchnadoedd a fferylliaeth wedi dangos darlun tebyg (21% yn is na'r llinell sylfaen, i fyny o 22%). Mae trafnidiaeth gyhoeddus yn dangos cynnydd tra bo parciau yn dangos gostyngiad o'i gymharu â'r wythnos flaenorol.
- Mae'r ffigur isod yn dangos y newid o ran symudedd yng Nghymru gan ddefnyddio data symudedd Google. Mae'r ffigurau yn seiliedig ar gyfartaledd yr awdurdodau lleol hynny sydd â data. Y llinell sylfaen yw'r gwerth canolrifol, ar gyfer y diwrnod cyfatebol o'r wythnos, yn ystod y cyfnod 5 wythnos o 3 Ionawr i 6 Chwefror 2020. Nid yw'r data ar gyfer sawl categori ar gael ar gyfer 17 Awst – 10 Medi oherwydd nad yw'r data'n bodloni trothwyon ansawdd.




- Mae data ffôn symudol dienw wedi'u casglu ynghyd gan O2 ar gyfer yr wythnos hyd at 8 Ionawr yn dangos cynnydd mewn teithiau o'i gymharu â'r wythnos flaenorol, a fyddai wedi cynnwys y cyfnod rhwng y Nadolig a'r flwyddyn newydd. Cynyddodd y teithiau a oedd yn dechrau yng Nghymru 7 pwynt canran i 49% yn

is na'r llinell sylfaen. Y llinell sylfaen ar gyfer data O2 yw'r un diwrnod o'r wythnos yn ystod wythnos gyntaf mis Mawrth.

**Adroddiad CoMix: Cysylltiadau cymedrig ar gyfer oedolion yn y DU o arolwg cyswllt cymdeithasol y DU**

- Mae'r adran ganlynol yn cynnwys dyfyniadau o adroddiad CoMix ar y DU i gyd ar gyfer Wythnos 41 sydd i'w weld yma.

- Arolwg ymddygiadol yw CoMix, a lansiwyd ar 24 Mawrth 2020. Mae'r sampl yn cynrychioli'n fras boblogaeth y DU sy'n oedolion. Gwahoddir cyfranogwyr i ymateb i'r arolwg unwaith bob pythefnos.

- Mae rhieni'n cwblhau'r arolwg ar ran plant (17 oed neu iau). Bydd cyfranogwyr yn cofnodi cysylltiadau uniongyrchol, wyneb yn wyneb a wnaed ar y diwrnod cynt, gan nodi nodweddion penodol ar gyfer pob cyswllt gan gynnwys oedran a rhyw'r person y cysylltwyd ag ef, a oedd cyswllt corfforol (cyswllt croen-i-groen), a lle digwyddodd y cyswllt (ee gartref, gwaith, wrth ymgymryd â gweithgareddau hamdden, etc).

- Mae'r cysylltiadau cymedrig ar gyfer oedolion yn parhau'n isel ym mhob un o'r pedair cenedl drwy gydol y cyfnod rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr 2020.

- Dangoswyd bod cysylltiadau ymhlith plant yn lleihau'n sylweddol dros gyfnod gwyliau'r Nadolig oherwydd gostyngiad mewn cysylltiadau sy'n gysylltiedig â'r ysgol, er bod plant hefyd yn lleihau eu cyswllt mewn lleoliadau "eraill" (cymdeithasol a hamdden yn bennaf) yn ystod y cyfnod hwn. [Mae hyn ar lefel y DU yn unig]

- Roedd y data'n gyson heb unrhyw newid ystyrlon mewn cysylltiadau risg uwch (>5 munud gydag unigolion 60+ oed) yn ystod cyfnod y Nadolig. [Mae hyn ar lefel y DU yn unig]

- O ran Cymru, mae'r data'n dangos bod cyswllt wyneb yn wyneb rhwng oedolion wedi aros tua dau i bedwar cyswllt yn gyffredinol, pan gaiff ei asesu drwy ofyn i gyfranogwyr gofnodi cysylltiadau uniongyrchol, wyneb yn wyneb a wnaed ar y

diwrnod cynt (gweler y Ffigur isod). Mae'n bwysig nodi bod cyfyngiadau'n gysylltiedig â maint sampl llai i Gymru.





***Figure 1: Setting-specific mean contacts of Adults for UK nations over time.*** Uncertainty calculated using Bootstrapped accounting. Contacts truncated to 50 contacts per participant. Observations are smoothed over two weeks to account for panel effects. Educ = education setting. Date on x axis refers to the midpoint of the survey period.

Ffynhonnell: [Adroddiad CoMix, Wythnos 41]

**Lleihau nifer yr achosion a drosglwyddir o fewn aelwydydd a rhyngddynt yng ngoleuni amrywiolyn newydd SARS-CoV-2**

Mae copi o grynodeb gweithredol y papur hwn i'w weld isod ac mae'r papur llawn i'w weld yma.

- Mae trosglwyddo SARS-CoV-2 o fewn y cartref yn gyffredin iawn. Yn ystod y cyfyngiadau symud, daw hwn yn amgylchedd trosglwyddo mwy pwysig gan fod y rhan fwyaf o weithgareddau y tu hwnt i'r cartref yn ddarostyngedig i gyfyngiadau.

- Mae'r risgiau o drosglwyddo o fewn aelwydydd yn debygol o fod yn uwch ar gyfer yr amrywiolyn newydd (B1.1.7) oherwydd ei fod yn fwy trosglwyddadwy (hyder canolig).

- Nid yw trosglwyddo achos i eraill o fewn cartref yn anochel, a gellir cymryd camau i leihau'r risg o haint eilaidd (hyder uchel).

- Gellir lliniaru nifer yr achosion a drosglwyddir rhwng aelodau'r cartref drwy gymhwyso cyfuniad o reolaethau personol, gweithdrefnol ac amgylcheddol, fel mesurau rhagataliol ac fel mesurau estynedig a weithredir ar unwaith pan fydd gan unrhyw aelod o'r cartref symptomau neu os yw wedi bod mewn cysylltiad agos ag achos posibl neu fod yr achos hwnnw wedi'i gadarnhau. Mae mesurau

estynedig hefyd yn debygol o fod yn fuddiol pan fydd aelod o'r cartref yn agored i niwed (hyder uchel).

- Mae ymgyrch gyfathrebu poblogaeth gyfan i gynyddu ymwybyddiaeth o anghenraid, dichonoldeb ac effeithiolrwydd gweithredu mesurau cartref i leihau trosglwyddo, yn debygol o wella'r defnydd o'r mesurau hyn a lleihau nifer yr achosion a drosglwyddir (hyder canolig).

- Byddai pecyn cynhwysfawr o wybodaeth a chymorth yn debygol o wella sut y byddai aelwydydd yn gweithredu cwarantin, yn enwedig mewn cartrefi a chymunedau difreintiedig. Gellid sicrhau'r effaith fwyaf posibl drwy ystyried yr ystod eang o rwystrau i gydymffurfio sy'n bodoli, gan gynnwys ffactorau ariannol, ymarferol, gwybodaeth ac emosiynol (hyder uchel).

- Gellid sicrhau bod gwybodaeth a chymorth yn cael yr effaith fwyaf bosibl drwy wneud yn siŵr eu bod yn briodol ac yn hygyrch i bobl mewn amrywiaeth o amgylchiadau aelwydydd, ac o wahanol ddiwylliannau a sectorau cymdeithas (hyder uchel).

- Yn absenoldeb mesurau cryf i leihau nifer yr achosion a drosglwyddir rhwng aelwydydd, efallai cyfyngedig fyddai dylanwad lleihau nifer yr achosion a drosglwyddir o fewn aelwydydd. Fodd bynnag, pan gaiff yr epidemig ei reoli'n ddigonol drwy leihau cymysgu rhwng aelwydydd, gall lleihau nifer yr achosion a drosglwyddir o fewn y cartref wneud cyfraniad sylweddol, o bosibl, at leihau nifer yr achosion yn gyffredinol (hyder canolig).

- Gallai gostyngiadau llwyddiannus yn nifer yr achosion a drosglwyddir o fewn aelwydydd gyfrannu at ostyngiadau yn y gyfradd R, nifer y bobl sy'n mynd i'r ysbyty, a marwolaethau, a chynyddu capasiti'r gwasanaeth iechyd (hyder canolig).

- Rydym yn amcangyfrif pe bai'r holl fesurau a amlinellir yn y papur hwn yn cael eu dilyn a bod gostyngiad cyffredinol o 25% yn y risg trosglwyddo o fewn aelwydydd yn cael ei gyflawni, gallai hyn arwain at 10-15% yn llai o achosion ar ôl tair wythnos, gydag effeithiau cysylltiedig ar y nifer sy'n gorfod mynd i'r ysbyty (hyder canolig).

**Ymchwil**

- Mae 98777 o gleifion o Gymru wedi'u recriwtio i astudiaethau iechyd y cyhoedd brys COVID-19 ar hyn o bryd, sy'n gynnydd o 120 ers yr adroddiad diwethaf.

**Crynodeb gwyliadwriaeth ac epidemiolegol wythnosol COVID-19 gan Iechyd Cyhoeddus Cymru**

Ar 13 Ionawr

- Roedd cyfran y galwadau i GIG 111 ac NHS Direct yn ymwneud â symptomau COVID-19 posibl yn parhau'n sefydlog o gymharu â'r wythnos flaenorol.

- Yn gyffredinol, mae ymgyngoriadau meddygon teulu ar gyfer unrhyw Haint Anadlol Acíwt (ARI) wedi gostwng tra bod ymgyngoriadau meddygon teulu ar gyfer amheuaeth o COVID wedi cynyddu o gymharu â'r wythnos flaenorol.

- Mae nifer y galwadau ambiwlans a allai fod yn gysylltiedig â COVID-19 wedi gostwng yn yr wythnos ddiweddaraf.

- Gostyngodd nifer Cymru gyfan o achosion COVID-19 a gadarnhawyd gan labordy yn ystod yr wythnos ddiweddaraf yn dilyn cynnydd yn wythnos 53 2020. Roedd positifedd y samplau ar gyfer episodau profi yn 19% yn wythnos 01.

- Yn ystod wythnos 01, gostyngodd nifer yr achosion yn y rhan fwyaf o grwpiau oedran yn dilyn cynnydd yn wythnos 53. Cynyddodd y ffigur hwn ymhlith y rhai sy'n 85+ gyda nifer yr achosion ar eu huchaf ymhlith y grŵp oedran hwn.

- Mae positifedd digwyddedd achosion sydd wedi'i cadarnhau ac episodau profi wedi gostwng yn y mwyafrif o ranbarthau yng Nghymru yn yr wythnosau diwethaf ac eithrio Bwrdd Iechyd Prifysgolion Betsi Cadwaladr.

- Ar lefel genedlaethol, roedd nifer y derbyniadau i ysbytai o bobl sydd ag achos wedi'i gadarnhau a nifer yr achosion a gadarnhawyd ymhlith cleifion mewnol yn sefydlog o'u cymharu â'r wythnos flaenorol. Gostyngodd nifer y derbyniadau i wardiau gofal critigol o'i gymharu â'r wythnos flaenorol.

- Mae data gwyliadwriaeth diweddar yn awgrymu bod heintiau COVID-19 yng Nghymru yn gostwng yn y rhan fwyaf o ranbarthau yng Nghymru. Mae achosion yn parhau i fod ar led yn ddaearyddol, ond mae'r rhan fwyaf o ardaloedd awdurdodau lleol (ALl) yn gweld bod y tueddiadau cyffredinol yn gostwng o ran achosion a gadarnhawyd yn ystod yr wythnos ddiweddaraf.

- Mae nifer uchel o achosion yn parhau i gael eu hadrodd, yn bennaf mewn cartrefi gofal preswyl.

- Cafwyd nifer cynyddol o enghreifftiau o VOC 202012/01 (wedi'u canfod drwy ddefnyddio'r dull procsi lle ceir Methiant ar y Targed Gennyn-S yn y feirws) drwy gydol mis Rhagfyr a dechrau mis Ionawr. Mae cyfran y samplau a gadarnhawyd sydd wedi'u profi lle ceir Methiant ar y Targed Gennyn-S (sy'n awgrymu VOC202012/01) wedi cynyddu ledled Cymru, ym mhob rhanbarth, sef tua 50% neu uwch yn y rhan fwyaf o Fyrddau Iechyd. Mae un achos o VOC2020/12/02 wedi'i gofnodi o Gymru (yr amrywiolyn sy'n gysylltiedig â De Affrica), a

chadarnhawyd 424 o achosion o VOC 202012/01 a gadarnhawyd mewn genomeg.

- Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ysgol yn cael eu haddysgu ar-lein ar hyn o bryd, gyda rhywfaint o ddysgu wyneb yn wyneb ar gyfer plant sy'n agored i niwed a phlant gweithwyr hanfodol. Mae gwybodaeth am wyliadwriaeth ysgolion ar gael ar ddangosfwrdd Iechyd Cyhoeddus Cymru.

**Dadansoddiad o Awdurdodau Lleol gan Iechyd Cyhoeddus Cymru**


(Ar gyfer y cyfnod rhwng 3 a 9 Ionawr 2021)

- Mae pob awdurdod lleol yn y trothwy uchaf ar gyfer digwyddedd 7 diwrnod (> 50 fesul 100,000) a phositifedd profion (>5%).


- Dylid bod yn ofalus wrth ddehongli'r tueddiadau ar gyfer y cyfnod diweddaraf gan nad yw'r data profi bob amser yn gyflawn a bydd y ffigurau yn destun adolygiad yn y dyfodol os bydd data hwyr yn cael eu hychwanegu.

**Defnydd o welyau mewn ysbytai**

- Mae'r ffigur isod yn dangos y defnydd o welyau mewn ysbytai oherwydd achosion COVID-19 a gadarnhawyd, yn ystod ton gyntaf ac ail don y pandemig (cyfartaledd treigl 7 diwrnod, fel ag yr oedd ar 15 Ionawr 2021).





- Mae'r Ffigur isod yn dangos nifer y cleifion mewn unedau gofal dwys oherwydd achosion o COVID-19 a gadarnhawyd yn ystod ton gyntaf ac ail don y pandemig (cyfartaledd treigl 7 diwrnod, ar 15 Ionawr 2021).





- Ar 15 Ionawr, mae nifer y bobl mewn ysbytai sydd wedi cael prawf COVID-19 cadarnhaol wedi aros ar yr un lefel dros yr wythnosau diwethaf, ond mae'n parhau'n uchel ac yn uwch na'r lefelau uchaf a welwyd ym mis Ebrill. Ar y cyfan mae nifer y gwelyau a ddefnyddir mewn unedau gofal dwys (cleifion COVID-19 a rhai heb COVID-19) hefyd yn uchel ac yn agos i'r lefelau uchaf a welwyd ym mis Ebrill.

- Yng Nghymru, mae fel arfer tua 152 o welyau gofal critigol (cyfwerth â Lefel 3 uned gofal dwys). Fodd bynnag, mae ysbytai yn creu capasiti ychwanegol ar gyfer gwelyau gofal critigol oherwydd y galw cynyddol amdanynt. Felly, mae unedau gofal critigol yng Nghymru naill ai wedi'u meddiannu 100% o ran eu capasiti gofal critigol arferol, neu yr aethpwyd y tu hwnt i'r ffigur hwn sy'n golygu na ellir eu staffio yn unol â'r gymhareb nyrsio 1:1 sy'n ofynnol ar gyfer cleifion critigol, hyd yn oed gyda staff gofal anghritigol yn helpu i ofalu am gleifion.


- Mae'r Ffigur isod yn dangos cyfanswm nifer y bobl sydd wedi cael prawf positif ar gyfer COVID-19 ac sydd mewn unedau gofal dwys mewn ysbytai ar draws y gwahanol fyrddau iechyd yng Nghymru. Data ar 15 Ionawr 2021.





- Mae'r Ffigur isod yn dangos nifer y bobl a dderbyniwyd i'r ysbyty yr amheuir bod COVID-19 arnynt neu y cadarnhawyd hynny. Mae'r llinell borffor yn cynrychioli'r cyfanswm dros gyfartaledd treigl o 7 diwrnod, tra bod y llinellau llwyd gwannach yn dangos y ffigurau gwirioneddol bryd hynny. Data ar 15 Ionawr 2021.




- Mae'r Ffigur isod yn dangos nifer y bobl a ryddhawyd o'r ysbyty yr amheuir bod COVID-19 arnynt neu y cadarnhawyd hynny. Mae'r llinell borffor yn cynrychioli'r cyfanswm dros gyfartaledd treigl o 7 diwrnod, tra bod y llinellau llwyd gwannach yn dangos y ffigurau gwirioneddol bryd hynny. Data ar 15 Ionawr 2021.




- Mae'r Ffigur isod yn dangos nifer y bobl a dderbyniwyd i'r unedau gofal dwys yr amheuir bod COVID-19 arnynt neu y cadarnhawyd hynny. Mae'r llinell borffor yn cynrychioli'r cyfanswm dros gyfartaledd treigl o 7 diwrnod, tra bod y llinellau llwyd gwannach yn dangos y ffigurau gwirioneddol bryd hynny. Data ar 15 Ionawr 2021.




**Ffon fesur tebygolrwydd Pennaeth y Proffesiwn Asesu Gwybodaeth (PHIA)**

- Os yw hynny'n briodol, bydd y Gell Cyngor Technegol yn mynegi tebygolrwydd neu hyder yn y cyngor a ddarperir gan ddefnyddio ffon fesur tebygolrwydd PHIA i sicrhau cysondeb ar draws gwahanol elfennau'r cyngor a roddir.

